Cartrefi Cymunedol Cymru | Community Housing Cymru

I gael mwy o wybodaeth ewch i'n [gwefan]

## CCC ar gyfer cydweithwyr mewn cymdeithasau tai

# Sut y gall **Cartrefi Cymunedol Cymru** eich helpu



Cartrefi Cymunedol Cymru yw llais cymdeithasau tai yng Nghymru.

Rydym yn cynrychioli cymdeithasau tai nid er elw sy'n darparu cartrefi i tua 10% o boblogaeth Cymru. Y weledigaeth a rannwn yw gwneud Cymru yn wlad lle mae tai da yn hawl sylfaenol i bawb.

Mae ein haelodau yn gweithio ledled Cymru, gan ddarparu cartrefi a gwasanaethau i ystod eang o bobl.

Fel eu corff masnach, rydym yn ymladd am y pethau maent eu hangen i gefnogi eu cymunedau, ac i sicrhau y gallwn gyda'n gilydd gyflawni ein gweledigaeth.

**Ewch i ochr arall y ddalen i weld sut ydym yn gweithio gydag aelodau bwrdd.**

## Cymryd rhan

Fel rhywun a gyflogir gan gymdeithas tai yng Nghymru, caiff eich aelodaeth o CCC ei gynnwys fel rhan o aelodaeth gyffredinol eich sefydliad. I gofrestru a derbyn yr w ybodaeth ddiweddaraf ar ein gwaith, digwyddiadau a chyfleoedd i gymryd rhan cofrestrwch ar ein gwefan.

**Ewch i chcymru.org.uk/register**

# Sut mae CCC yn gweithio gyda chydweithwyr mewn cymdeithasau tai?

## Ein cynnig i aelodau

Mae gennym amrywiaeth o wahanol gyfleoedd ymgysylltu i chi gymryd rhan yn y gwaith a wnawn fel sector.

**Edrychwch ar yr adran cynnig i Aelodau ar ein gwefan.**

## Cymunedau aelodau

Mae'r cymunedau hyn yn rhoi lle i weithwyr proffesiynol ar draws y sector i gwrdd, canolbwyntio ar faterion allweddol, edrych i'r dyfodol, rhannu arfer da a rhwydweithio. Maent yn cynnwys:

- Prif weithredwyr (grŵp caeedig)
- Cadeiryddion ac is-gadeiryddion Bwrdd (grŵp caeedig)
- Diogelwch adeiladau
- Cyfathrebu a materion allanol
- Cyllid
- Cartrefi y dyfodol (datblygu ac asedau)
- Iechyd, gofal a chymorth
- Rheolaeth tai
- Adnoddau dynol
- Rheoleiddio a llywodraethiant

**Mae'r cyfarwyddiadau ymuno ar gael isod.**

## Digwyddiadau ar gyfer cydweithwyr

Rydym yn cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau ar-lein ac wyneb i wyneb yn cynnwys:

- Sesiynau sbotolau
- Gweminarau
- Sesiynau gwybodaeth Llywodraeth Cymru

**Ewch i'r adran Beth sydd Ymlaen ar ein gwefan i archebu lle yn un o'n digwyddiadau diweddaraf.**

## Rhaglen cynadleddau

Cynhaliwn bedair cynhadledd bob blwyddyn ar gyfer y sector:

- Cynhadledd Llywodraethiant ym mis Mawrth
- Un Gynhadledd Fawr ym mis Gorffennaf
- Cynhadledd Cyllid ym mis Hydref
- Cynhadledd Flynyddol ym mis Tachwedd

**Mae manylion ein Cynadleddau nesaf ar gael ar ein gwefan.**

## Grwpiau gorchwyl a gorffen

Rydym yn cynnal grwpiau gorchwyl a gorffen gyda chyfnod penodol, gan ddod â chydweithwyr ynghyd o bob rhan o'r sector i weithio ar weithgareddau allweddol sydd angen ymateb neu datrysiad ar y cyd.

**Mae gwybodaeth am ein meysydd gwaith ar gael ar ein Hyb Tai.**

## Partneriaid masnachol

Anelwn eich cysylltu gydag arbenigwyr allweddol gyda chysylltiadau gyda'r sector. Rydym wedi dethol partneriaid sy'n dangos ymroddiad i adeiladu perthynas gref a pharhaus gyda chymdeithasau tai ac sy'n rhannu ein gweledigaeth o Gymru lle mae cartref da yn hawl sylfaenol i bawb.

**Mae mwy o wybodaeth am ein partneriaid masnachol ar gael ar ein gwefan.**

# Cymryd rhan

Os oes unrhyw Gymuned Aelodau yn berthnasol i'ch swydd chi, ac os hoffech fod yn rhan o'r sgyrsiau cyfredol sy'n mynd rhagddynt gyda chydweithwyr ar draws Cymru, mae gan bob cymuned grŵp WhatsApp. Os hoffech ymuno yn un o'r grwpiau hyn, cysylltwch â memberservices@chcymru.org.uk gan roi eich enw, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn symudol, swydd a pha gymdeithas tai yr ydych yn aelod o'i bwrdd.